Senedd Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
—
Welsh Parliament
Public Accounts Committee

Dr Andrew Goodall

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru

16 Tachwedd 2020

Annwyl Dr Goodall

**Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â materion iechyd**

Hoffwn ddiolch ichi unwaith yn rhagor am fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 9 Tachwedd, yn enwedig yn yr amseroedd prysur a heriol sydd ohoni. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn hynod ddiolchgar am y wybodaeth a gawsant. Fe wnaethoch gytuno i ddarparu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol, yr wyf wedi'i nodi isod:

- Nodyn ar brif ganfyddiadau'r adolygiad cymheiriaid o'r cynlluniau Chwarter 2 a gyflwynwyd gan sefydliadau'r GIG, a sut y dylid rhoi'r dysgu cyfrannol ar waith;
- Diweddariad ar ganlyniadau'r cyfarfodydd y mae'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi'u cael gyda phob sefydliad GIG i adolygu eu cynlluniau ariannol a'u rhagolygon diweddaraf ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol;
- Manylion y mecanweithiau y mae'r GIG wedi'u mabwysiadu i wrthsefyll arferion twyllodrus o ran caffael;
- Trosolwg o gymarebau nyrsio - yn y GIG, a manylion ar nifer y nyrsys a meddygon sydd wedi ymddeol ac sydd wedi'u hail-gyflogi i leddfu pwysau ar y Gwasanaeth yn ystod y pandemig; a
- Nodyn ar adolygiad Llywodraeth Cymru o fformiwla Townsend.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddArchwilio@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAC@senedd.wales
0300 200 6565

Cytunasoch hefyd, yn garedig iawn, i ymateb i nifer o gwestiynau nad oeddem yn gallu eu gofyn, oherwydd cyfyngiadau amser, y manylir arnynt isod:

- Wrth i ni weld ail don o'r pandemig Covid-19, sut ydych chi'n blaenoriaethu cleifion nad ydynt yn gleifion COVID ac yn sicrhau nad yw'r blaenoriaethu hwn yn cael effaith andwyol ar rai grwpiau;
- Sut ydych chi'n lliniaru'r risgiau sy'n ymwneud â hawliadau esgeulustod clinigol o gofio'r penderfyniadau anodd y mae'n rhaid eu gwneud ynglŷn â blaenoriaethu gwasanaethau yn ystod y pandemig;
- Mae gennym bryderon ynglŷn ag adnewyddu system Canisc, a deallwn fod y contract ar gyfer Canolfan Ddata Blaenafon yn dod i ben. (Cyfeirir at y sefyllfa ym mhapurau Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, 24 Medi 2020). A oes modd i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y sefyllfa hon, gan gynnwys effaith bosibl y cau a'r oedi o ran triniaethau canser;
- Ar 1 Tachwedd 2020, nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru, oherwydd problem trosglwyddo data rhyngddo a Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru 'efallai na fydd rhai canlyniadau profion diweddar wedi'u cynnwys' yn y data a adroddwyd ar gyfer y diwrnod hwnnw. A allwch egluro beth ddigwyddodd a pha gamau a gymerwyd i atal unrhyw broblemau rhag digwydd eto; ac
- Ym mis Awst, gwnaethoch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ar reoli apwyntiadau dilynol Cleifion Allanol ar draws Cymru. A allwch chi roi diweddariad o ran y data a nodir yn eich llythyr, a oedd cyn dyfodiad y pandemig; beth mae'r data newydd yn ei ddangos o ran y sefyllfa ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.